

GWRES MEWN EGLWYSI – NODYN CYFARWYDDYD AR GYFER PLWYFI

Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i blwyfi am osod system wresogi newydd mewn eglwys. Mae'n trafod sut i asesu gofynion gwresogi eich eglwys, gwelliannau posibl, pa systemau sydd ar gael a ble i fynd am gymorth a chyngor.

Cyflwyniad

Mewn byd delfrydol, byddai gan eglwys wres cefndir lefel isel cyson i helpu i ddiogelu ei hadeiladwaith a'i dodrefn. Mae angen iddi ddarparu amgylchedd cyfforddus i'w defnyddwyr hefyd, a allai olygu bod angen trefniant gwresogi mwy hyblyg, yn dibynnu ar sut caiff yr adeilad ei ddefnyddio. Sut felly mae penderfynu beth yw'r ffordd orau o gynhesu eich eglwys? Fel llawer o brosiectau, nid oes "un ateb sy'n addas i bawb" a bydd gan bob adeilad ei ofynion penodol ei hun. Bydd yr ateb terfynol yn gydbwysedd rhwng sawl ffactor fel cost, cysur, defnydd ac arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol eich eglwys.

I. Asesu eich anghenion presennol ac yn y dyfodol

Er mwyn gallu penderfynu ar ba system wresogi sydd orau i'ch eglwys, mae angen i chi feddwl yn ofalus am sut rydych yn ei defnyddio. Er enghraifft, ai dim ond unwaith neu ddwywaith yr wythnos y mae'n cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau neu a oes pobl ynddi bob diwrnod o'r wythnos? A fydd eich gofynion yn newid yn y dyfodol agos os oes gennych brosiectau eraill ar y gweill, fel y rhai sy'n golygu mwy o ddefnydd cymunedol neu gynnydd mewn oriau agor fel rhan o ddyfarniad grant? A oes gennych ofynion gwresogi gwahanol mewn gwahanol ardaloedd? Neu efallai fod eich system wresogi bresennol wedi methu a bod angen un newydd arnoch? Beth bynnag yw'r rheswm, ceisiwch beidio â rhuthro i osod system newydd a allai brofi'n amhriodol a chostus yn ddiweddarach. Gallai asesiad cychwynnol o sut rydych yn defnyddio eich adeilad helpu i arbed amser ac arian i chi yn y tymor hir a bydd yn rhoi gwell gwybodaeth ar gyfer unrhyw friffiau neu ddogfennau tendro rydych yn eu paratoi wrth ofyn am ddyfynbrisiau gan beirianwyr gwresogi sydd â chymwysterau addas.

a) Pa mor aml y mae eich eglwys yn cael ei defnyddio?

Bydd hyn yn cael dylanwad mawr ar eich dewis o system wresogi. Os nad yw eich eglwys yn cael ei defnyddio'n aml (unwaith neu ddwywaith y mis efallai) ac nad oes gennych lawer o arian i'w wario, yna dim ond pan fydd gwasanaeth neu ddigwyddiad yn cael ei gynnal y byddwch am gynhesu eich eglwys. Bydd hyn yn cadw costau rhedeg yn isel a gallwch ddewis system a fydd yn gwresogi'r adeilad yn gyflym pan fydd angen, ond ni fydd hynny'n golygu'r allyriadau carbon isaf o reidrwydd. Ar y llaw arall, os oes gennych adeilad sy'n cael ei ddefnyddio'n aml (efallai bob dydd neu sawl gwaith yr wythnos), yna nid yn unig y byddwch am barhau i gadw costau rhedeg a gosod yn isel, ond byddwch am gael cyn lleied o allyriadau carbon â phosibl hefyd.

A fydd eich gofynion gwresogi yn newid yn y dyfodol agos? Os felly, a ydych yn rhagweld cynnydd neu ostyngiad yn y defnydd o'r adeilad? Mae'n gwneud synnwyr i geisio "diogelu eich adeilad ar gyfer y dyfodol" lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn golygu cynllunio eich system wresogi i fod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn y defnydd heb orfod mynd drwy waith ailwampio mawr neu osodiad newydd. Bydd cael system sy'n ymgorffori pethau fel rheiddiaduron ac amseryddion unigol dan reolaeth thermostat, yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i chi wrth wresogi gwahanol ardaloedd ar adegau gwahanol gyda gofynion gwahanol o ran tymheredd. Ceisiwch feddwl o leiaf 5 i 10 mlynedd i'r dyfodol os yw hynny'n bosibl. Os ydych yn gosod system wresogi newydd gyda chymorth grant fel rhan o brosiect mwy, yna bydd y bobl sy'n rhoi'r arian i chi (Cronfa Dreftadaeth y Loteri, er enghraifft) fel arfer yn disgwyl i'ch eglwys gael isafswm oes o 10 mlynedd.

b) Bod yn gyfforddus

Gofynnwch i'r bobl sy'n defnyddio eich eglwys pa mor gyfforddus ydy'r tymheredd a'r awyrgylch iddyn nhw yn ystod amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, bydd rhywun sy'n glanhau angen llawer llai o wres cefndir (os o gwbl) nag addolwr sy'n eistedd i lawr gan mwyaf yn ystod y gwasanaeth. Peidiwch ag anghofio ymwelwyr chwaith. Mae adeilad cynnes yn fwy croesawgar, hyd yn oed os mai dim ond ychydig o wres cefndirol sydd yna ac efallai y bydd ymwelwyr yn fwy tueddol o aros, yn enwedig os yw'r eglwys wedi'i chyflwyno'n dda gyda thafenni gywbodaeth neu roddion amrywiol ar werth.

Ceisiwch ddarganfod a yw lefelau cyfforddusrwydd y defnyddwyr yn newid yn ystod y dydd a'r flwyddyn. Er enghraifft, os yw eich eglwys mewn safle heulog agored, efallai y bydd yn cael llawer o wres naturiol yn ystod y dydd neu dros fisoedd yr haf. Fe all hyn olygu mai dim ond ar adegau penodol o'r dydd yn ystod y gwanwyn a'r hydref y bydd angen gwres ychwanegol ac na fydd ei angen o gwbl yn ystod misoedd yr haf. Hyd yn oed os yw eich eglwys mewn safle cysgodol neu mewn safle nad yw'n gweld yr haul, efallai y byddwch yn dal i allu manteisio ar newidiadau dyddiol naturiol i'r tymheredd er mwyn lleihau lefel y gwres cyffredinol rydych yn ei ddefnyddio.

c) A oes yna rai ardaloedd o'r eglwys yn cael eu defnyddio'n fwy nag eraill?

Efallai fod gennych swyddfeydd plwyf yn yr eglwys? Yn gyffredinol, mae gweithwyr mewn swyddfeydd yn llonydd ac yn fwy tebygol o deimlo'r oerni na'r rhai sy'n symud o gwmpas. Felly, bydd angen mwy o wres yn yr ardaloedd hyn nag ardaloedd eraill o'r eglwys nad ydynt yn cael eu defnyddio cymaint. Felly byddai'n syniad o bosibl meddwl am wresogi fesul "parth" fel bod modd cynhesu gwahanol rannau o'r eglwys ar wahân. Gan fynd â phethau gam ymhellach, efallai y byddwch hyd yn oed am ystyried gwahanol ffynonellau gwres ar gyfer gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, gellid defnyddio dull o wresogi corau yn ystod gwasanaethau i hybu lefelau cyfforddusrwydd unigol ar y cyd â boeler nwy safonol a system rheiddiaduron i wresogi'r adeilad yn ehangach.

d) Eich system wresogi bresennol

Cwyn gyffredin am systemau gwresogi eglwysi yw nad yw addolwyr yn ddigon cynnes yn ystod gwasanaethau. Os felly, ceisiwch ddarganfod pam. Ydy'r gwres ymlaen ond nad oes neb yn teimlo effaith y gwres? Os felly, gallai hyn awgrymu bod problem gyda'r system ei hun (e.e. hen foeler aneffeithlon, dim digon o reiddiaduron, gwres yn mynd i'r ardaloedd anghywir, angen gwasanaethu, ac ati) neu mae rhywbeth yn atal y gwres rhag cyrraedd yr addolwyr (e.e. drafft yn dod drwy'r ffenestri a'r drysau, gwres yn mynd i'r to, ac ati). Adolygwch eich system wresogi bresennol yn feirniadol er mwyn ceisio darganfod beth sydd ddim yn gweithio'n dda (neu ddim o gwbl) a pha ffactorau allanol allai fod yn effeithio

arni. Man cychwyn da yw edrych ar y sylwadau yn eich adroddiad arolygu pum mlynedd diwethaf a ddylai gynnwys adran ar eich system wresogi.

2. A oes unrhyw beth y gallwch ei wneud yn syth i wella pethau?

Gall adolygiad o'ch trefniadau gwresogi presennol ddatgelu nad oes angen system wresogi newydd arnoch mewn gwirionedd, ond y dylech wella'r un sydd gennych eisoes. Er enghraifft, gall system wresogi fynd yn aneffeithlon gydag oedran os nad yw'n cael ei gwasanaethu a'i chynnal yn rheolaidd. Mae pethau syml fel gwaedu rheiddiaduron yn rheolaidd yn helpu i atal aer rhag cronni yn y system ac yn sicrhau eu bod yn allyrru cymaint o wres â phosibl. Neu addasu thermostat y boeler a gosodiadau thermostat y tanc dŵr poeth yn dymhorol er mwyn arbed ynni (ac arian). Efallai mai dim ond rhannau o'ch system wresogi sydd angen eu newid (e.e. bod eich boeler mewn cyflwr da ond bod angen rheiddiaduron newydd arnoch neu i'r gwrthwyneb). Yn amlwg, mae'n llai costus newid rhannau sydd wedi gwisgo neu dorri na chael system hollol newydd.

Os yw eich system wresogi bresennol mewn cyflwr gweithio da ond nad yw'r cynhesrwydd yn cyrraedd pobl sy'n defnyddio'r adeilad, yna gallai fod yn diflannu i'r gofod to. Mae hyn yn broblem gyffredin gydag adeiladau sydd â tho uchel gan fod aer cynnes yn codi. Un ateb posibl yw gosod ffaniau yn y gofod to i gyfeirio'r aer cynnes yn ôl at lefel y ddaear. Mae atebion syml eraill yn cynnwys atalwyr drafftiau sy'n dod i mewn drwy ddrysau sy'n ffitio'n wael gan ddefnyddio llenni neu bethau atal drafftiau, gan sicrhau bod craciau ffenestri yn cael eu trwsio a darparu clustogau i addolwyr eistedd arnynt neu hyd yn oed flancedi ar gyfer pengliniau! Hefyd, cofiwch wirio unrhyw fentiau ffenestri, waliau a lloriau gan y gallai'r rhain fod yn sownd ar agor.

Cofiwch ei bod yr un mor bwysig hefyd i awyru eich adeilad (i atal lleithder rhag cronni) ag y mae i'w gynhesu. Felly, mae angen i chi gydbwyso'r ddau ofyniad uchod er mwyn sicrhau awyrgylch cyfforddus i ddefnyddwyr a'r adeilad ei hun. Un ateb posibl yw cael y fentiau ar gau pan fydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ac ar agor pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Gellid defnyddio rhyw fath o ddull awyru "lifo araf" am yn ail (os yw eich fentiau yn cynnwys y cyfleuster hwn) er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o gyfforddusrwydd mewnol gyda gostyngiad yn y lleithder sy'n cronni.

3. Systemau gwresogi

Mae gan system wresogi nifer o brif rannau - ffynhonnell ynni (nwy, trydan, olew ac ati), y modd y mae'r ynni'n cael ei droi'n wres (boeler, cyfnewidydd gwres, ac ati) ac allyrrydd gwres (rheiddiadur, tân trydan, ac ati). Felly, mae angen i chi feddwl yn ofalus pa un o'r cyfuniadau hyn fydd yn gweithio i'ch eglwys benodol chi ac o dan ba amodau. Er enghraifft, efallai y bydd gan eglwys yng nghanol dinas foeler nwy gyda rheiddiaduron unigol dan reolaeth thermostat sydd wedi'u rhagosod i ddod ymlaen ar adegau penodol o'r dydd pan fydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio. Efallai nad oes gan eglwys wledig fynediad at gyflenwad nwy ac felly bydd angen ffynhonnell arall o ynni fel trydan. Yma efallai na fydd y system wresogi yn cael ei defnyddio fwy nag unwaith yr wythnos, felly efallai y bydd gwresogyddion stôr nos yn fwy priodol. Gellir eu rhoi ymlaen ddiwrnod/nos cyn gwasanaeth er mwyn iddynt allyrru gwres y diwrnod canlynol. Er bod system gwresogi trydan yn ddrutach yn draddodiadol i'w rhedeg na system nwy, efallai y bydd eglwys yn gallu manteisio ar dariff nos i wefru'r gwresogyddion stôr. Mae'r math hwn o system yn gymharol rad i'w osod hefyd.

Mae'r rhestr ganlynol yn drosolwg byr o'r prif fathau o systemau gwresogi a'u manteision a'u hanfanteision. Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar gael gan y sefydliadau a restrir yn yr adran *Adnoddau* ar ddiwedd y nodyn cyfarwyddyd hwn:

Trydan

- Cyflenwad trydan ar gael ym mhob lleoliad bron (gwledig a threfol)
- Fe'i defnyddir gan amlaf gyda gwresogyddion stôr nos fel system wresogi
- Yn ymateb yn gyflym os defnyddir y dull hwn i bweru aer poeth (gwresogyddion darfudol) a gwresogyddion rheiddiol
- Gellir ei ddefnyddio hefyd i gynhesu rheiddiaduron cludadwy wedi'u llenwi ag olew
- Gall fod y system fwyaf effeithlon a chost-effeithiol ar gyfer eglwysi bach nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson
- Costau gosod yn isel
- Gall costau rhedeg fod yn uchel ar gyfer eglwys ganolig neu fawr
- Nid yw'n cael ei ystyried yn ffynhonnell ynni adnewyddadwy fel arfer, er bod rhai cwmnïau cyfleustodau bellach yn defnyddio rhywfaint o ynni adnewyddadwy (e.e. pŵer gwynt) i gynhyrchu cyfran o'r trydan y maen nhw'n ei werthu

Nwy

- Cyflenwad nwy o'r prif gyflenwad naturiol ar gael fel arfer yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol
- Fe'i defnyddir gan amlaf gyda system boeler a rheiddiaduron, er y gellir pweru rhai gwresogyddion aer poeth yn uniongyrchol gyda nwy
- Gall costau gosod fod yn isel neu'n ganolig yn dibynnu ar union faint y system
- Yn gyffredinol yn llai costus i'w rhedeg na system wresogi trydan ac olew (er y bydd hyn yn dibynnu ar y defnydd)
- Nid yw'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy

Olew

- Fe'i defnyddir gan amlaf gyda system boeler a rheiddiaduron
- Gall costau gosod fod yn isel neu'n ganolig yn dibynnu ar union faint y system
- Gall fod yn ddrud i'w rhedeg yn enwedig os caiff ei defnyddio'n barhaus
- Angen ei ddanfôn i'r safle
- Bydd angen tanc storio gydag uned gaeedig warchodol (bwnd)
- Nid yw'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy

Bio-màs

- Ffynhonnell ynni effeithlon iawn
- Gellir ei ddefnyddio mewn boeleri a stofiau
- Angen ei ddanfôn i'r safle
- Angen cyfleusterau storio
- Costau gosod yn ganolig neu'n uchel (gellir lleihau'r gost gyda grantiau) ond mae costau rhedeg yn isel yn gyffredinol
- Posiblwydd o gael grant drwy'r Cynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI)
- Boeleri angen system bwydo hopran a sylw rheolaidd
- Stofiau llosgi coed yn opsiwn posibl mewn eglwysi bach gwledig
- Ffynhonnell ynni adnewyddadwy

Pympiau gwres ffynhonnell aer

- Amsugno gwres o'r aer tu allan y gellir ei ddefnyddio i ddarparu gwres a dŵr poeth

- Fel arfer mae unedau pwmp yn cael eu gosod ar wal allanol neu ar y llawr y tu allan
- Perfformio'n well gyda gwres dan y llawr neu wres aer cynnes na rheiddiaduron
- Angen inswleiddio adeiladau'n dda er mwyn sicrhau bod y system mor effeithlon â phosibl
- Costau gosod a rhedeg yn ganolig
- Gweithio orau pan fyddant yn rhedeg drwy'r amser er mwyn darparu gwres cefndir cyson
- Anodd cynyddu'r tymheredd yn ôl galw
- Ffynhonnell ynni adnewyddadwy

Pympiau gwres o'r ddaear

- Defnyddio pibellau sydd wedi'u claddu yn y ddaear i echdynnu gwres sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i gynhesu rheiddiaduron, systemau gwresogi tanlawr/aer cynnes a dŵr poeth
- Perfformio'n well gyda gwres dan y llawr neu wres aer cynnes na rheiddiaduron
- Angen inswleiddio adeiladau'n dda er mwyn sicrhau bod y system mor effeithlon â phosibl
- Angen gwaith paratoi helaeth i'r ddaear (a gofod oni bai y defnyddir tyllau turio)
- Costau gosod yn eithaf uchel ond mae costau rhedeg yn gallu bod yn isel neu'n ganolig
- Gweithio orau pan fyddant yn rhedeg drwy'r amser felly gallant ddarparu gwres cefndir cyson
- Anodd cynyddu'r tymheredd yn ôl galw
- Ffynhonnell ynni adnewyddadwy

4. Ffynonellau ynni ychwanegol

Efallai y byddwch yn gallu manteisio ar ynni'r haul i leihau eich defnydd o drydan a dŵr poeth. Mae paneli ffotofoltäig yn cynhyrchu trydan y gallir ei ddefnyddio i ddarparu golau. Mae paneli solar thermol yn darparu dŵr poeth. Gellir defnyddio'r ddwy system uchod ar y cyd â systemau gwresogi eraill er mwyn helpu i leihau eich defnydd cyffredinol o ynni. Os ydych chi'n cynhyrchu mwy o drydan nag yr ydych chi'n ei ddefnyddio, gallwch ei werthu yn ôl i'r grid a all wedyn wrthbwysu cost unrhyw wres neu drydan ychwanegol y bydd arnoch ei angen o bosibl.

Paneli ffotofoltäig solar

- Mae'r paneli hyn angen to heulog (e.e. wynebu'r de neu'r gorllewin) er y gallir eu defnyddio weithiau ar lefel daear
- Gall costau gosod fod yn ganolig neu'n uchel (cost paneli)
- Mae costau rhedeg yn isel iawn
- Cânt eu defnyddio i gynhyrchu trydan yn unig felly byddwch angen ffynhonnell ynni ychwanegol ar gyfer system wresogi
- Efallai y bydd modd manteisio ar dariff cyflenwi trydan wrth gynhyrchu mwy o drydan nag sydd ei angen arnoch chi
- Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio yn enwedig os yw'n weladwy iawn neu ar adeilad rhestredig
- Mae'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy

Paneli solar thermol

- Mae'r paneli hyn angen to heulog (e.e. wynebu'r de neu'r gorllewin), er y gellir eu gosod weithiau ar waliau
- Mae costau gosod yn isel
- Mae costau rhedeg yn isel
- Cânt eu defnyddio i gynhesu dŵr yn unig felly bydd angen ffynhonnell ynni ychwanegol arnoch yn y gaeaf ar gyfer eich dŵr poeth a'ch anghenion gwresogi
- Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio yn enwedig os yw'n weladwy iawn neu ar adeilad rhestredig
- Mae'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy

5. Ystyriaethau Eraill

Gall system wresogi niweidio adeilad hanesyddol os nad yw wedi'i gynllunio'n iawn. Dylid ystyried yr effaith y gall system wresogi ei chael ar ffabrig hanesyddol a chynnwys eich eglwys a cheisio lleihau hyn. Ewch ati i ysgrifennu Datganiad Arwyddocâd neu gynnal asesiad o'r effaith er mwyn tyngu sylw at feysydd a allai beri problem a'r hyn y gellir ei wneud i leihau unrhyw ddifrod posibl. Mae'r ddwy ddogfen uchod yn ddefnyddiol i'w cynnwys gyda chais am hawleb a bydd yn dangos i Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth eich bod wedi ystyried pob opsiwn yn ofalus.

Gall gwresogi ac oeri adeiladau hanesyddol yn gyflym beri problemau gyda'r adeiladwaith a'r cynnwys mewn achosion eithafol. Dylid ceisio sicrhau nad oes unrhyw eitemau sensitif yn cael eu gosod gerllaw unrhyw ffynonellau gwres (ee. rheiddiaduron) a bod unrhyw leithder a gynhyrchir gan y system ei hun (a defnyddwyr yr adeilad) yn cael ei wasgaru er mwyn atal problemau gyda chyddwysiad. Mae awyru da yn allweddol.

A oes unrhyw archaeoleg sensitif a allai gael ei heffeithio gan system wresogi newydd? Bydd hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn meddwl gosod pwmp gwres o'r ddaear gan na ellir cael unrhyw gladdedigaethau a mathau eraill o archaeoleg gudd yn y ddaear (e.e. olion adeiladau blaenorol, claddgelloedd, ac ati). Gall y manau lle gosodir pethau fel rheiddiaduron, gwresogyddion stôr, pibellau dŵr, ac ati, hefyd effeithio ar waliau, lloriau, cofebion, ac ati, felly mae'n bwysig canfod a oes unrhyw ystyriaethau archaeolegol mewnol hefyd.

6. Ymgynghoriadau

Ar ôl i chi gael syniad sylfaenol o'ch gofynion gwresogi a pha systemau gwresogi sydd ar gael (gweler yr adran *Adnoddau*), dylech ystyried cael cyngor proffesiynol. Fel cam cyntaf, siaradwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ynghylch eich cynigion. Mae gan y rhan fwyaf o Bwyllgorau arbenigwr gwresogi ar y panel a allai ymweld â'r safle i drafod eich gofynion penodol.

Dylid defnyddio arbenigwr/peiriannydd gwresogi sydd â chymwysterau addas bob amser. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn cynllunio prosiect mawr a bod eich eglwys yn arwyddocaol yn bensaernïol ac yn hanesyddol. Dylid sicrhau eu bod wedi gweithio ar adeiladau hanesyddol yn flaenorol (eglwysi os yn bosibl) ac yn deall anghenion penodol y mathau hyn o adeiladau. Mae gan yr adran *Adnoddau* wybodaeth am y gwahanol gyrff proffesiynol y mae peirianwyr gwresogi yn perthyn iddynt a lle gallwch chwilio am unigolion sydd wedi cymhwyso'n briodol.

Os yw eich eglwys wedi ei rhestru neu mewn Ardal Gadwraeth ac y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar adeiladwaith neu gymeriad eich eglwys (e.e. ychwanegu paneli

ffotofaltäig i'r to), dylech siarad â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd oherwydd efallai y bydd angen caniatâd cynllunio yn ogystal â'ch caniatâd hawleb.

Os yw eich prosiect yn un bach neu os ydych yn cyfnewid offer am offer tebyg, efallai y byddai'n well gennych ddefnyddio rhywun sydd wedi gwneud gwaith i chi o'r blaen neu sydd wedi'i argymhell yn bersonol gan blwyf arall. Gofynnwch i Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a oes unrhyw brosiectau tebyg wedi'u gwneud yn yr esgobaeth yn ddiweddar ac yna siaradwch â'r plwyfi hynny neu ewch i ymweld â nhw.

Cofiwch y dylech bob amser gael contract yn ei le ar gyfer prosiectau mawr a chael o leiaf dri dyfynbris ar gyfer prosiectau llai.

ADNODDAU

Mae'r gwefannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ddewis y system wresogi gywir, ffynonellau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a sut i ddod o hyd i weithwyr gwresogi proffesiynol.

Eglwys Loegr

Mae Eglwys Loegr wedi cynhyrchu amrywiaeth o ganllawiau cynhwysfawr ar gynllunio a gweithredu system wresogi newydd, ffynonellau ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gellir gweld y rhain a/neu eu lawrlwytho o brif wefan Eglwys Loegr: www.churchofengland.org.

Esgobaeth Llundain

Mae Esgobaeth Llundain wedi cynhyrchu cyfres o *erthyglau sy'n Seiliedig ar Wybodaeth* ar wresogi mewn eglwysi ac ar ffynonellau ynni adnewyddadwy. Gellir gweld yr erthyglau hyn drwy'r brif wefan yn: www.london.anglican.org.

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae'r sefydliad hwn yn rhoi cyngor arbed ynni ar bynciau amrywiol gan gynnwys gwres a thrydan adnewyddadwy. Ewch i: www.energysavingtrust.org.uk

Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI) Annomestig

Mae'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy (RHI) Annomestig yn helpu busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau dielw i dalu cost gosod technolegau gwres adnewyddadwy. Mae gwybodaeth ar gael yn: www.gov.uk.

Eco Church

Mae gan wefan Eco Church amrywiaeth o adnoddau i helpu eglwysi i fynd i'r afael â materion amgylcheddol. Mae'r wefan ar gael yn: www.ecochurch.arocha.org.uk.

Canolfan y Dechnoleg Amgen (CAT)

Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth yn ganolfan addysg ac ymwelwyr sy'n arddangos atebion ymarferol ar gyfer cynaliadwyedd. Mae'n cwmpasu pob agwedd ar fyw'n wyrdd fel ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, adeiladu amgylcheddol, eco-lanweithdra, rheoli coetiroedd a thyfu organig. Mae'r ganolfan ar agor drwy'r flwyddyn (ewch i'r wefan i weld y dyddiadau a'r amseroedd) ac mae llawer o adnoddau y gellir eu lawrlwytho ar y wefan: www.cat.org.uk.

Historic England

Mae gan Historic England adran bwrpasol ar eu gwefan ar gyfer gwneud newidiadau i addoldai. Er bod y wefan yn rhoi cyngor ymarferol da, byddwch yn ymwybodol bod rhai elfennau o'r broses ddeddfwriaethol ynglŷn â chaniatâd adeiladu (hawleb a chynllunio) yn wahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Mae'r brif wefan ar gael yn: www.historicengland.org.uk.

Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE)

Mae CIBSE yn cynnal cofrestr o ymgynghorwyr sy'n gweithio yn y diwydiant gwasanaethau adeiladu. Gallwch chwilio am weithwyr proffesiynol ym maes gwresogi, goleuo, ynni, ac ati, sy'n gweithio gydag amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau (fel adeiladau hanesyddol).
www.cibse.org.

Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Plymio a Gwresogi (CIPHE)

Gallwch chwilio am beirianwyr plymio a gwresogi sydd â chymwysterau addas ar wefan CIPHE. www.ciphe.org.uk.

Cymdeithas Contractwyr Plymio a Gwresogi (AHPC)

Mae APHP yn gorff masnach ar gyfer y diwydiant plymio a gwresogi yng Nghymru a Lloegr. Gallwch chwilio am osodwyr plymio a gwresogi cymeradwy yn eich ardal o'u prif wefan: www.ciphe.org.uk.

Peirianwyr Nwy

Mae rhestr o beirianwyr nwy sydd wedi'u cofrestru i weithio'n ddiogel ac yn gyfreithiol ar foeleri, poptai, tanau a phob teclyn nwy arall, i'w gweld ar wefan y Gofrestr Diogelwch Nwy. www.gassaferegister.co.uk.

Trydanwyr

Dylai pob trydanwr feddu ar gymwysterau addas a bod wedi cofrestru â NICEIC neu ECA.

www.niceic.com

www.eca.co.uk

Gwresogi Bio-màs a Thanwydd Solet

HETAS yw'r corff swyddogol a gydnabyddir gan Lywodraeth y DU i gymeradwyo teclynnau, tanwydd a gwasanaethau gwresogi domestig bio-màs a thanwydd solet gan gynnwys cofrestru gosodwyr cymwys a busnesau gwasanaethu. www.hetas.co.uk

Tina Andrew
Rheolwr Cadwraeth a Chymorth Eglwysi
Yr Eglwys yng Nghymru
Diweddarwyd: 30 Awst 2019